Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Amcangyfrif 2017-18

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amcangyfrif o’r Incwm a’r Treuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben 31 Mawrth 2018

Paratowyd a gosodwyd ar y cyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Isobel Garner**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, ac fe wnawn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Rhagy Madrodd

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Yn unol ag Adran 20 o'r ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiadau heb wneud y canlynol:

- ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- ystyried unrhyw sylwadau y gall y naill neu'r llall eu gwneud.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn gynnig cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Caiff Cynllun Ffioedd drafft, a baratowyd o dan Adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ei gynnwys i'w ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif am eu bod yn ddibynnol ar ei gilydd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 6 |
| Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru | 7 |
| Meithrin dealltwriaeth, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant | 11 |
| Ein Blaenoriaethau Strategol | 12 |
| Darparu adnoddau i Archwilydd Cyffredinol Cymru – blaenoriaethau a chyllid ar gyfer 2017-18 | 14 |
| Buddsoddi cyfalaf a TGCh | 19 |
| Cymhlethdodau ein gweithdrefn ffioedd | 21 |
| Cynllun Ffioedd 2017-18 | 22 |
| Rhagolwg | 24 |
| Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018 | 25 |
| Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru | 27 |
| Atodiad 2 – Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig | 29 |
| Atodiad 3 – Cynllun Ffioedd Drafft 2017-18 | 31 |

# Rhagair

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi paratoi'r Amcangyfrif hwn ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, gan gyflawni ein cylch gorchwyl statudol i ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol a sicrhau adnoddau ar gyfer ein rhaglen waith ein hunain.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol yw sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau. Rydym yn ymwybodol iawn bod rôl hanfodol gwaith archwilio annibynnol yn bwysicach nag erioed pan fo adnoddau'n brin a bod gwneud penderfyniadau cadarn yn fwyfwy allweddol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Dengys yr Amcangyfrif hwn fod y Bwrdd yn benderfynol o sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru ei hun yn sefydliad atebol a reolir yn dda. Ar gyfer 2017-18 rydym yn gofyn am £152,000 (4 y cant mewn termau real) yn llai na'r hyn a gymeradwywyd ar gyfer 2016-17.

Mae ein Hamcangyfrif, fel y'i cymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn dibynnu'n uniongyrchol ar y cyfraddau ffioedd a gynigiwn ar gyfer gwaith archwilio. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft fel y gall y Pwyllgor Cyllid ei ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif. Mae'r cyfraddau ffioedd a'r graddfeydd ffioedd statudol a ddangosir wedi bod yn destun ymgynghoriad â chyrff llywodraeth leol, fel sy'n statudol ofynnol, yn ogystal â'r holl sectorau eraill a archwilir.

Yn ôl yr adborth i'r ymgynghoriad, er bod cyrff a archwilir yn croesawu'r ffaith ein bod yn parhau i rewi cyfraddau ffioedd am dair blynedd, byddent yn hoffi ein gweld yn adolygu'r ffordd y cynhaliwn ein harchwiliadau yn sgil yr heriau ariannol a wynebir ganddynt. Rydym yn ymateb i hyn gyda'n prosiect trawsnewid strategol a thrwy gynigion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwilio'r gwaith o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor Cyllid yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17, ynghyd â chyllid i: ehangu a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cyfrifwyr dan hyfforddiant ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y tri phrosiect pwysig hyn ac adlewyrchir hyn yn yr Amcangyfrif hwn.

Mae'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd yn rhagflaenu ein Cynllun Blynyddol, sy'n nodi ein blaenoriaethau allweddol, ein hamcanion a'n mesurau perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan roi darlun llawnach o'r defnydd a wnawn o'r adnoddau a gaiff eu sicrhau drwy'r Amcangyfrif. Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn cynnwys blaenflaenoriaethau ar gyfer 2017-18, a gaiff eu cyflawni drwy'r Amcangyfrif hwn a cheir rhagor o fanylion amdanynt yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18, a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2017.

Wrth i ni gyflwyno'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft hyn i'w hystyried gan y Pwyllgor Cyllid, pwysleisiwn ein bod yn benderfynol o sicrhau y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn chwarae ei rhan ar adeg o gyni cyllidol tra'n parhau i herio a helpu cyrff cyhoeddus i newid a gwella.

Isobel Garner
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**


# Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru

1 Mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru roi i'r Archwilydd Cyffredinol yr adnoddau sydd eu hangen arno i wneud ei waith yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'n costau yn ymwneud â'r staff a gyflogir gennym, ein contractwyr, darparu gwasanaethau archwilio ledled Cymru a darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol i gyflawni'r gwaith. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

2 Disgwyliwn wario £21.7 miliwn yn 2017-18 ar ddarparu gwasanaethau archwilio cyhoeddus ledled Cymru. Mae hyn yn cyfateb i lai na cheiniog ymhob pum punt y pleidleisir arni'n flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

3 Dengys Arddangosyn 1 ble rydym yn bwriadu gwario'r arian hwn yn 2017-18 a sut y caiff ei ariannu.

## Arddangosyn 1




4 Dangosodd ein harolwg o randdeiliaid a gynhaliwyd yn 2016 gyda Phrif Weithredwyr gwasanaethau cyhoeddus fod gan 97 y cant hyder yng ngwaith Swyddfa Archwilio Cymru, roedd 79 y cant yn dweud bod ein gwaith wedi arwain at wella gwasanaethau cyhoeddus, ac roedd 83 y cant o'r farn ein bod yn sefydliad a gaiff ei redeg yn dda. Mae ein hymgynghoriad dilynol ar gyfraddau ffioedd ar gyfer y flwyddyn nesaf, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 a'r Amcangyfrif hwn, yn nodi sut yr awn ati i sicrhau gwerth am arian parhaus o ran cost gyffredinol gwaith archwilio cyhoeddus.

5 Ers 2013-14, y flwyddyn cyn i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 gael ei gweithredu'n llawn, mae Swyddfa Archwilio Cymru **wedi lleihau ei gwariant 10 y cant mewn termau real**[1], fel y dangosir yn Arddangosyn 2. Mae'r arbediad cronnol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny (y rhan sydd wedi'i lliwio yn Arddangosyn 2) yn cyfateb i bron £6 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Cyllid, a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd archwilio.

6 Mae'r arbedion hyn yn adeiladu ar leihad termau real mewn gwariant o fwy nag 20 y cant rhwng 2009-10 a 2013-14.

## Arddangosyn 2 – Gwariant rhwng 2013-14 a 2017-18




1 Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan SYG ym mis Mehefin 2016.

7 Cynlluniwyd lleihad mewn gwariant mewn ymateb i’r mesurau cyni cyllidol a wynebir gan ein cyrff a archwilir, lleihad yng nghwantwm cyffredinol y gwaith a wneir, ac o ran cyflawni ein huchelgeisiau ein hunain o dan ein rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Smarter, Leaner, Better.

8 Yn ystod yr un cyfnod rydym wedi gweithio’n galed i amsugno costau uwch dyfarniadau cyflog, codiadau cyflog cytundebol, chwyddiant cyffredinol a chynnydd yng nghyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwyr.

9 Mae’r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru ei hun yn sefydliad atebol a redir yn dda sy’n dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o’r safon uchaf a bod ein gwaith yn cynnig gwerth da am arian. Gan adeiladu ar arbedion a sicrhawyd mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn gwneud gwaith blaengynllunio a fydd yn ein galluogi i sicrhau arbedion ychwanegol ar gyfer 2017-18. Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi’r arbedion arian parod a nodwyd ers 2013-14 a’r rhai a gynigir ar gyfer 2017-18.

## Arddangosyn 3 – Arbedion a gyflawnwyd ac a gynlluniwyd

| | 2014-15 £’000 | 2015-16 £’000 | 2016-17 £’000 | 2017-18 £’000 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arbedion o drefniadau cytundebol newydd â chwmnïau archwilio | – | 165 | 640 | – | **805** |
| Arbedion o adolygu costau rheoli a gweinyddu | 300 | 410 | 140 | – | **850** |
| Arbedion o wella effeithlonrwydd ein gweithrediadau | – | 185 | 220 | 405 | **810** |
| **CYFANSWM** | **300** | **760** | **1,000** | **405** | **2,465** |

10 Yn bwysig, mae’r arbedion uchod yn ein galluogi i dalu costau uwch heb iddo effeithio ar gyfraddau ffioedd. Rydym hefyd wedi llwyddo i reoli gostyngiadau yn ein sylfaen incwm ffioedd/grant heb fod angen ailedrych ar gyfraddau ffioedd na cheisio arian ychwanegol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gwblhau trafodaethau anodd i ddod â chynllun prydlesu ceir Swyddfa Archwilio Cymru i ben a chyflwyno Cynllun Teithio diwygiedig i staff a wnaiff arbed tua 10 y cant ar ein costau teithio bob blwyddyn, a thrwy hynny leihau ein gorbenion ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

11 Rydym wedi adolygu sgiliau ein timau archwilio ariannol er mwyn gwella ein cynllun hyfforddi i raddedigion sy’n gysylltiedig â gweithredu rhaglen Hyfforddeion Cyllid Cymru Gyfan sy’n creu gweithwyr cyllid proffesiynol y dyfodol yng Nghymru. Yn y tymor canolig, bydd hyn yn helpu i reoli cost gwaith archwilio.

12 Gan edrych tua’r dyfodol, er nad yw ein prosiect trawsnewid presennol ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth a data yn debygol o gael effaith sylweddol ar ein ffioedd archwilio yn 2017-18, disgwyliwn iddo arwain at newidiadau tymor hwy o ran ein dull archwilio, gan gael effaith gadarnhaol ar ein sylfaen costau a’n ffioedd.

13 A ninnau wedi rhewi cyfraddau ffioedd ers 2014-15, gallwn gynnig eu **rhewi ymhellach ar gyfer 2017-18** fel y nodir yn ein Cynllun Ffioedd drafft a gynhwysir gyda’r ddogfen hon. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad termau real o 4 y cant mewn cyfraddau ffioedd ers 2014-15.

# Meithrin dealltwriaeth, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant

14 Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r 28 o awdurdodau gwella llywodraeth leol ac asesiadau strwythuredig o bob un o 10 corff y GIG. Mae'n cyhoeddi tua 15 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian a'r defnydd cywir o arian cyhoeddus, yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £2.5 biliwn, ac yn cynghori ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol i'w gweld yn Atodiad 2.

15 Y gwaith hwn sy'n darparu'r cwantwm ar gyfer adennill costau Swyddfa Archwilio Cymru, drwy'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, grant ar gyfer gwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, ynghyd â chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

16 Mae'r Bwrdd yn darparu staff medrus iawn i gyflawni tua 90 y cant o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, a ategir gan 10 y cant arall o adnoddau archwilio a ddarperir o dan gontract gan gontractwyr arbenigol a chwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat.

17 Mae Cynllun Blynyddol 2016-17 yn amlinellu ein blaenoriaethau strategol, fel y nodir isod, ac mae'r Amcangyfrif hwn ar gyfer 2017-18 yn dangos faint o arian sydd ei angen yn erbyn y blaenoriaethau hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf.

# Ein Blaenoriaethau Strategol

## Parhau i gyflawni ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar gyni




Byddwn yn parhau i roi mwy o bwyslais ar atgyfnerthu rheolaeth ariannol ar draws sector cyhoeddus Cymru a sicrhau bod adnoddau ac asedau cyhoeddus yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon.

Bydd ein gwaith archwilio'n canolbwyntio ar gynorthwyo cyrff cyhoeddus i drawsnewid gwasanaethau a'u helpu i ymdopi ag effaith gostyngiadau yn eu cyllid ac i lwyddo er gwaethaf y gostyngiadau hynny.


## Paratoi adroddiadau mwy cynhwysfawr am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu



Byddwn yn datblygu ein gwaith archwilio o ran trefniadau llywodraethu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Yn gynyddol, byddwn yn ystyried y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gwarchod adnoddau dynol a naturiol fel rhan o'n gwaith o ystyried adnoddau ariannol a'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfrif am y ffordd y maent yn eu defnyddio.

## Cryfhau ein strategaeth o ran y gweithlu er mwyn inni ymateb yn well i ddatblygiadau yn y dyfodol.



Byddwn yn cryfhau ein strategaeth o ran y gweithlu, ac yn gwneud y gorau ohoni, i sicrhau bod modd inni ateb y galw presennol, rhagweld datblygiadau yn y dyfodol ac ymateb iddynt.

Byddwn yn canolbwyntio ar gael nifer briodol a chymysgedd amrywiol o bobl sy'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, am y gost iawn.

## Defnyddio data a thechnoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol



Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod ein gwaith yn cael mwy o effaith drwy ddefnyddio technoleg newydd yn well a sicrhau ein bod yn casglu data, yn dadansoddi ac yn mynegi canfyddiadau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni gwaith archwilio sy'n canolbwyntio ar allu'r cyrff sy'n cael eu harchwilio i fanteisio ar y trawsnewid digidol a'u hymwybyddiaeth o risgiau digidol.

18 Yn wahanol i Swyddfeydd Archwilio eraill y DU, am resymau hanesyddol, caiff cryn dipyn o’n gwaith ei ariannu gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Rhydd yr Amcangyfrif hwn adnoddau penodol ar gyfer astudiaethau gwerth am arian ac adweithiol cenedlaethol, cyfnewid Arfer Da rhwng gwasanaethau cyhoeddus, astudiaethau cenedlaethol Llywodraeth Leol, gwaith paratoi sy’n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 ac Awdurdod Refeniw Cymru a chymorth technegol, ymchwil a gwaith datblygu gan gynnwys cydymffurfiaeth ym maes archwilio a sicrhau ansawdd.

19 Ymhlith yr enghreifftiau diweddar penodol o'r gwaith hwn mae adolygiad o gadernid ariannol mewn Llywodraeth Leol, adroddiad ar Reoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol ac ymchwiliad i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Ltd. Anelwn at lunio rhwng 10 a 12 o adroddiadau i'w hystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad bob blwyddyn, ynghyd â dwy neu dair Astudiaeth Llywodraeth Leol genedlaethol.

20 Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru barhau i weithio yng nghyd-destun heriau ariannol ehangach y sector cyhoeddus a newidiadau gwleidyddol a deddfwriaethol. Gall y newidiadau hyn gynyddu a lleihau'r gwaith archwilio sydd ei angen a newid natur y gwaith sydd ei angen a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein gweithlu. Er mwyn gallu ymateb i hyn mewn ffordd hyblyg rydym yn atgyfnerthu ein strategaeth ar gyfer y gweithlu. Mae buddsoddi mewn sgiliau staff yn dal i fod yn bwysig i ni; mae'r Amcangyfrif hwn yn parhau i ddarparu adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu staff ynghyd ag ehangu ein rhaglen lwyddiannus i ddatblygu cyfrifwyr dan hyfforddiant ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

21 Cefnogodd Pwyllgor Cyllid y pedwerydd Cynulliad ein huchelgais o herio ein defnydd presennol o ddata a thechnoleg, cwestiynu'r tybiaethau rydym fel arfer yn eu cymryd yn ganiataol a datblygu atebion radical o ran sut y gallem ddefnyddio technoleg newydd i drawsnewid ein prosesau archwilio a busnes erbyn 2025. Disgwyliwn i'r gwaith hwn arwain at newid ein dull archwilio yn y tymor canolig i'r tymor hwy, gan leihau ein sylfaen costau a'n ffioedd.

22 Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi adnoddau i barhau â'r gwaith trawsnewid strategol hwn a chynnal gwybodaeth sectoraidd drwy ymgysylltu lefel uwch agos o fewn y sectorau rydym yn eu harchwilio.

23 Mae ein Hamcangyfrif hefyd yn darparu cyllid fel y gall cyfranogwyr gorfodol a gwirfoddol yn y Fenter Twyll Genedlaethol wneud hynny am ddim. Dywed cyrff cyhoeddus wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Cynulliad yn ariannu'r gwasanaeth hwn sydd am ddim, drwy ein Hamcangyfrif. Ers ei lansio yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau gwerth £30 miliwn yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ledled y DU. Mae o leiaf wyth sefydliad arall wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y Fenter eleni mewn ymateb i'r ffaith bod y Pwyllgor Cyllid yn cefnogi cyfranogiad di-dâl.

# Darparu adnoddau i Archwilydd Cyffredinol Cymru – blaenoriaethau a chyllid ar gyfer 2017-18

24 Yn gyffredinol, caiff 70 y cant o wariant Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Daw'r 30 y cant arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

25 Yn 2016-17, cafodd arian grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella Llywodraeth Cymru ei haneru yn sgil cymeradwyo ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17, gan arwain at gyflawni llai o waith o fewn Awdurdodau Lleol. Mae'r Amcangyfrif hwn wedi'i lunio ar sail y ffaith nad ystyrir y caiff y grant a roddir gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith a wneir i gefnogi gwelliant o fewn Llywodraeth Leol ei leihau ymhellach. Os cyhoeddir lleihad, efallai y bydd angen i ni ddychwelyd at y Pwyllgor Cyllid.

**Blaenoriaeth: y dull archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

26 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny a pharatoi adroddiad blynyddol ar eu cynnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau o'r graddau y mae'r cyrff cyhoeddus hynny yn pennu amcanion ac yn cymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

27 Cyflwynwyd tystiolaeth i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad diwethaf ar gost amcangyfrifedig y ddyletswydd newydd hon ar yr Archwilydd Cyffredinol. Ar yr adeg honno roedd ein hamcangyfrif rhwng £225,000 ac £875,000 y flwyddyn. Rydym yn ceisio lleihau costau ychwanegol drwy weithio gyda'r cyrff a archwilir er mwyn datblygu ein dull archwilio. Drwy adeiladu ar ddulliau archwilio presennol a'u haddasu o fewn llywodraeth leol ac iechyd yn arbennig, rydym bellach yn amcangyfrif y bydd y gost ychwanegol o weithredu dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf ar ben isaf yr amrediad hwnnw.

28 Yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17, cytunwyd ar gyllid o £422,000 er mwyn ein galluogi i ddatblygu a phrofi ein dull archwilio. Dengys Arddangosyn 4 sut rydym yn gwario'r arian hwn yn 2016-17..

29 Rydym wedi annog Llywodraeth Cymru i ailystyried y gofynion archwilio ar gyfer Llywodraeth Leol o dan Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn flaenorol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi tystiolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol y gallai lleihau'r gofynion asesu sylweddol sydd arno o dan y Mesur gan gyflwyno, yn eu lle, ofynion symlach ar gyfer cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau sydd wedi'u hintegreiddio â deddfwriaeth arall, arwain at leihau costau i Awdurdodau Lleol ac archwilwyr, gan sicrhau y caiff adnoddau prin eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Ein safbwynt cyhoeddedig ar gyfer Llywodraeth Leol yw y dylai'r ffioedd ychwanegol y mae'n rhaid eu codi am waith sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn ffioedd yn sgil diddymu neu ddiwygio'r Mesur. Mae ymatebion gan gyrff Llywodraeth Leol i'r ymgynghoriad ar ffioedd wedi atgyfnerthu'r farn hon.

30 Yn achos cyrff iechyd, byddwn yn ceisio addasu ein gwaith archwilio presennol i fodloni'r gofynion newydd er mwyn cyfyngu unrhyw gynnydd mewn ffioedd ar ôl 2017-18.

## Arddangosyn 4

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – 2016-17 |
|---|
| Rydym wedi cynnal ymgynghoriad â'r cyrff cyhoeddus a nodir yn y ddeddfwriaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan wahodd sylwadau ar ail-lunio ein dull archwilio mewn ymateb i'r Ddeddf. Ymatebodd 80 y cant o'r cyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i'r ymgynghoriad, ynghyd â 23 o randdeiliaid eraill. |
| Dangosodd yr ymatebion fod cefnogaeth eang i egwyddorion archwilio cyhoeddus ac roedd y mwyafrif o blaid dull archwilio newydd a mwy cyson yn seiliedig ar fframwaith llywodraethu cyffredin. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adolygiad o'r ymatebion hynny mewn llythyr agored at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ym mis Awst 2016. |
| Rydym yn defnyddio'r rhan fwyaf o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru i dalu costau staffio datblygu, profi ac ymgynghori ar ein dull archwilio heb effeithio ar ffioedd cyrff a archwilir. Defnyddir arian i gyflogi Rheolwr Prosiect dynodedig, er mwyn adlenwi staff archwilio sydd ynghlwm wrth weithgarwch datblygu a manteisio ar arbenigwyr, heb drosglwyddo'r costau hynny drwy ffioedd. |
| Cynhelir digwyddiad i randdeiliaid ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghaerdydd ar 22 Tachwedd 2016. Yn y digwyddiad, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn nodi sut maent yn cydweithio o dan y Ddeddf a byddant yn lansio eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. |
| Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau dysgu a rennir ar themâu sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, gan gynnwys digwyddiad llwyddiannus iawn o'r enw 'Dyfodol Llywodraethu: Gwneud penderfyniadau effeithiol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol'. |

31 Yn achos cyrff llywodraeth ganolog, mae dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf yn galw am fwy o waith archwilio, a fydd yn anochel yn arwain at godi ffioedd ychwanegol ar ôl 2017-18 oni bai y gellir rhoi model cyllido arall ar waith. Mae'r adborth i'r Ymgynghoriad ar Ffioedd yn dangos y bydd cyrff llai o faint a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r costau ychwanegol hyn oni cheir arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

32 Yn dilyn eich gwaith cychwynnol ar ddatblygu a phrofi dulliau archwilio yn 2016-17, bydd angen gwerthuso a mireinio ein dull archwilio. Felly, bydd ein gweithgarwch datblygu yn parhau yn 2017-18, a dyna pam rydym wedi cynnwys cyllid datblygu parhaus, er ar lefel is, yn 2017-18.

33 **Rydym yn lleihau'r arian a neilltuir i'r flaenoriaeth hon i £300,000 ar gyfer 2017-18, a fydd yn cynnwys £150,000 i gwblhau ein gwaith datblygu a £150,000 i gymedroli'r ffioedd y byddai'n rhaid i ni fel arall eu codi ar gyrff a archwilir am y gwaith hwn.**

## Blaenoriaeth: hyrwyddo datblygiad cyfrifwyr dan hyfforddiant sy’n raddedigion

34 Yn Amcangyfrif 2016-17, gwnaethom nodi ein cynnig i ehangu a gwella ein rhaglen hyfforddi bresennol drwy gynnig secondiadau o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cefnogodd y Pwyllgor Cyllid swm ychwanegol o £132,000 ar gyfer yr amcan hwn. Roedd i’n cynnig nod deuol, sef helpu i ailfodelu ein gweithlu ein hunain drwy wneud mwy o ddefnydd o hyfforddeion a chyfrannu at gronfa dalent cyllid y dyfodol sydd ar gael i’r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Noda Arddangosyn 5 yr hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yma gyda’r arian hwn.

### Arddangosyn 5

| Rhaglen Hyfforddi Graddedigion – Cyflawniadau hyd yma |
|---|
| Am y tro cyntaf rydym wedi dwyn ynghyd Gyfarwyddwyr Cyllid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth gyson o ofynion sgiliau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth leol, GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Cyrff a Noddir ganddi, awdurdodau tân ac achub, yr heddlu, addysg uwch ac addysg bellach, SYG, Tŷ'r Cwmnïau, y DVLA a'r Bathdy Brenhinol. |
| Gwnaethom recriwtio naw hyfforddai graddedig newydd yn 2016. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm nifer hyfforddeion graddedig Swyddfa Archwilio Cymru i 26 ym mis Medi 2016 |
| Disgwylir i bump o hyfforddeion Swyddfa Archwilio Cymru gael eu secondio i gyrff eraill y sector cyhoeddus yn ystod 2016-17 (Cyngor Dinas Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Rhoddir mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. |
| Mae'r uchod wedi esgor ar secondiadau pellach o fewn ac ar draws cyrff cyfranogol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. |
| Cyflwynir rhaglen meithrin sgiliau lefel uwch i hyfforddeion a fydd yn arwain at raglen arweinyddiaeth iau achrededig. Bydd hyn yn gyfystyr â hyfforddiant rheoli llinell cyntaf achrededig ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau proffesiynol. Rydym yn ystyried p'un a all y rhaglen arweinyddiaeth iau hon gwmpasu hyfforddeion mewn cyrff cyhoeddus eraill. |
| Trefnwyd cynhadledd i hyfforddeion ar gyfer 1 Tachwedd 2016 lle rydym yn disgwyl tua 200 o fyfyrwyr cyllid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Dangoswyd cryn ddiddordeb gan fyfyrwyr ac arweinwyr yn y sector cyhoeddus (sy'n cefnogi'r digwyddiad ac yn siarad ynddo). |
| Mae un o'n Cyfarwyddwyr, Ann-Marie Harkin, wedi ennill Gwobr Arwain Cymru am yr hyn a alwyd gan y beirniaid yn 'weledigaeth glir' a'i gwaith i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr cyllid proffesiynol yn y sector cyhoeddus. |

35 Bydd 10 o hyfforddeion graddedig eraill yn ymuno â'r cynllun yn 2017-18, ynghyd â chreu dau gyfle secondio cyfwerth ag amser llawn arall, gan olygu bod 10-12 o gyfleoedd cyfwerth ag amser llawn bob blwyddyn.

36 Ar y cyd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, rydym yn gwneud gwaith rhagarweiniol ar sefydlu cynllun prentisiaeth cyllid. Gohiriwyd y gwaith hwn nes i ni gael eglurhad o sut y bydd y lefi prentisiaethau yn gweithio yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn gwbl ymrwymedig i sefydlu cynllun o fewn Swyddfa Archwilio Cymru a byddwn yn dysgu o brofiad Swyddfeydd Archwilio eraill y DU.

37 **Er mwyn parhau i ategu cynllun secondio Cymru gyfan, rydym yn dyrannu £212,000 ar gyfer 2017-18, sy'n gynnydd o £80,000 dros y flwyddyn gyfredol.**

## Blaenoriaeth: sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

38 Mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithio tuag at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2015 yn llawn, lle bynnag y bo'n bosibl. Yn 2017-18 byddwn yn hyfforddi ein staff derbynfa er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog.

39 **Er mwyn darparu'r hyfforddiant Cymraeg a'r staff cyflenwi angenrheidiol, rydym yn dyrannu £20,000 yn 2017-18.**

## Cyllid: defnydd amcangyfrifedig o Gronfa Gyfunol Cymru

40 Dengys Arddangosyn 6 y meysydd gwariant a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'r ffioedd a godir gennym ar gyrff a archwilir. Mae'r rhain yn gostau sydd â chysylltiad agosach â'r rôl a gyflawnir gennym o ran darparu arweiniad ar faterion archwilio, pennu safonau, cyflawni polisïau'r Cynulliad a chefnogi gwaith craffu'r Cynulliad.

41 **Mae hyn yn lleihad o £152,000** o gymharu â'n Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17.

## Arddangosyn 6 – Defnydd amcangyfrifedig o Gronfa Gyfunol Cymru

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Cost cynnal astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys astudiaethau adweithiol, Astudiaethau Cenedlaethol Llywodraeth Leol, crynodebau Cymru gyfan o waith archwilio lleol ac ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill. (Amser staff a chostau cysylltiedig) | 2,490 | 2,490 |
| Cymorth technegol, ymchwil a datblygu gan gynnwys cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd. (Amser staff a chostau cysylltiedig) | 744 | 744 |
| Y Gyfnewidfa Arfer Da. (Amser staff a chostau cysylltiedig) | 540 | 540 |
| Cynorthwyo hyfforddeion archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. (Cost amser astudio na ellir codi tâl amdano a chymorth rheoli) | 320 | 320 |
| Rhaglen Hyfforddi Graddedigion Cymru gyfan (paragraffau 34-37) | 212 | 132 |
| Buddsoddi mewn dysgu a datblygu staff a chynllunio olyniaeth. (Costau hyfforddi allanol ac amser staff na ellir codi tâl amdano) | 500 | 500 |
| Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. (Amser staff) | 420 | 420 |
| Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru. (Cost y Bwrdd ac amser staff yn cefnogi trefniadau llywodraethu) | 300 | 300 |
| Cydraddoli costau teithio Cymru gyfan. (Sicrhau nad yw cyrff a archwilir dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol.) | 300 | 300 |
| Trawsnewid strategol a gwybodaeth sectoraidd. (Amser staff) | 230 | 230 |
| Datblygu ein dull archwilio ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (paragraffau 26-33) | 150 | 422 |
| Cymedroli'r effaith ar ffioedd am waith sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (paragraffau 26-33) | 150 | – |
| Gwaith paratoi ar gyfer Awdurdod Refeniw Cymru. (Amser staff) | 50 | 50 |
| Cyllid cylchol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol (paragraff 23) | 50 | 180 |
| Cyllid dibrisio ar gyfer asedau cyfalaf (hanesyddol ac anariannol) | 50 | 50 |
| Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (paragraffau 38 a 39) | 20 | – |
| **Cyfanswm y gofyniad gwariant refeniw** | **6,526** | **6,678** |

# Buddsoddi cyfalaf a TGCh

42 Nodir ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2017-18 i 2019-20 sy'n gysylltiedig â'n Strategaeth TG fewnol yn Arddangosyn 7. Darperir y rhaglen gytûn ar gyfer 2016-17 er gwybodaeth.

## Arddangosyn 7 – Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfalaf

| | 2016-17 £'000 | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu cyfrifiaduron/ TG | 50 | 50 | 50 | 50 |
| System rheoli gwybodaeth Archwilio Perfformiad | 80 | 80 | – | – |
| Adleoli swyddfa'r gogledd | 50 | | – | – |
| Adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith | 40 | 20 | 40 | 50 |
| Adnewyddu'r seilwaith fideogynadledda | 30 | 30 | 10 | 30 |
| Prosiect Trawsnewid Strategol | – | 50 | 50 | 50 |
| System ariannol newydd | – | 100 | 150 | – |
| System ffôn newydd | | 50 | – | – |
| **CYFANSWM** | **250** | **380** | **300** | **180** |

43 **Gwaith a Gynlluniwyd i Adnewyddu Cyfrifiaduron/TG**
Rhaglen dreigl o adnewyddu cyfrifiaduron/cyfarpar TG er mwyn sicrhau parhad busnes a bod cyfarpar yn gyfredol ac yn ddibynadwy. Bydd y rhaglen ddisodli arfaethedig yn arwain at gostau is yn yr hirdymor, drwy leihau nifer yr achosion o gyfarpar yn methu, ac effaith hynny, a thrwy sicrhau bod staff proffesiynol yn fwy cynhyrchiol.

44 **System Rheoli Gwybodaeth Archwilio Perfformiad**
Yn sgil cyflwyno'r llwyfan archwilio newydd ar gyfer gwaith Archwilio Ariannol, rydym yn parhau â rhaglen waith i ddylunio, profi a gweithredu datrysiadau TG er mwyn cefnogi ein gwaith Archwilio Perfformiad.

45 **Adnewyddu'r Seilwaith Rhwydwaith**
O bryd i'w gilydd, mae angen i ni adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith data sy'n gysylltiedig â'n swyddfeydd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i'w ddefnyddio ac ymdopi â galwadau o ran cysylltedd yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu ar gyfer y gwaith parhaus disgwyliedig o drosglwyddo i 'wasanaethau cwmwl' dros y blynyddoedd i ddod, a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg fideo ar y we ac amlgyfrwng.

46 **Adnewyddu'r Seilwaith Fideogynadledda**
Mae ein cyfleusterau fideogynadledda wedi lleihau'r costau, yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar amser staff sy'n gysylltiedig â theithio, felly byddwn yn buddsoddi rhagor yn y cyfleusterau yn ein tair swyddfa. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio technoleg fideogynadledda ar gyfrifiaduron er mwyn cynorthwyo cydweithwyr sy'n gweithio o bell ac o swyddfeydd sydd heb gyfleusterau fideogynadledda. Bydd y camau cyfunol hyn yn sicrhau bod fideogynadledda ar gael, lle bynnag a phryd bynnag y bydd yn ddefnyddiol i'n staff a'n partneriaid.

47 **Prosiect Trawsnewid Strategol**
Mae ein prosiect Trawsnewid Strategol yn edrych ar wneud gwell defnydd o ddata a thechnoleg yn ystod 2016-17. Mae'r prosiect yn edrych y tu hwnt i'r byrdymor er mwyn canfod ffyrdd o wella ein harlwy busnes i gleientiaid, gan fanteisio ar y datblygiadau cyflym sydd ar droed yn y farchnad dechnoleg. Gall fod angen buddsoddi mewn cyfarpar a meddalwedd newydd yn sgil hyn.

48 **System Ariannol Newydd**
Rydym am ddisodli neu uwchraddio ein system ariannol bresennol er mwyn sicrhau bod ein prosesau mewnol a'n systemau adrodd yn parhau i gyrraedd safonau arfer gorau. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn dal i fod yn amodol ar ystyried achos busnes llawn ar ddechrau 2017 a gall fod yn gymwys dros ddwy flynedd er mwyn adlewyrchu'r cyfnod gweithredu tebygol.

49 **System Ffôn Newydd**
Bydd angen i'n system ffôn bresennol gael ei disodli er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddibynadwy ac yn gyfredol. Pan gaiff y system ei disodli byddwn yn sicrhau ei bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

# Cymhlethdodau ein gweithdrefn ffioedd

50 Nid ydym yn cynhyrchu elw o'n ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni ddylem **godi mwy na chost lawn cyflawni swyddogaeth**. Yn wahanol i gwmnïau archwilio masnachol, ni allwn wneud gwarged ar un aseiniad archwilio er mwyn gwrthbwyso colledion ar un arall. Pan fyddwn yn gwneud gwarged ar aseiniad archwilio unigol, mae'n rhaid i ni ei ad-dalu i'r corff a archwilir waeth pa waith arall y gallwn fod yn ei wneud gydag ef. Os awn i gostau ychwanegol y tu hwnt i'r ffi y cytunwyd arni, byddwn yn asesu'r rhesymau ac yn penderfynu a ddylem drosglwyddo'r gost honno i'r corff a archwilir ai peidio. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn gyfreithlon i godi tâl am yr holl gostau ychwanegol, ond mewn realiti mae tensiwn gwirioneddol yn datblygu â chyrff a archwilir pan fyddwn yn ceisio codi mwy o dâl na'r ffi a amcangyfrifwyd gennym yn wreiddiol ar gyfer y gwaith. Cydnabu Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yr her a wynebwyd gennym (a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol) wrth fynd i'r afael â'r cymhlethdodau hyn.

51 Cyfrifwn gyfraddau ffioedd drwy rannu cyfanswm ein costau amcangyfrifedig, heblaw am y rhai a delir gan Gronfa Gyfunol Cymru, â faint o waith archwilio a wneir yn ystod y flwyddyn. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae'n anochel y bydd yr union wariant, cymysgedd sgiliau a diwrnodau gwaith gwirioneddol ar gyfer pob prosiect archwilio unigol yn amrywio a gall y ffi a bennwyd yn wreiddiol fod yn fwy neu'n llai na'r costau gwirioneddol yr awn iddynt. Ynghyd â'r ffactorau hyn, rhaid i ni wrth gwrs aros o fewn cwmpasau cyllidebol cymeradwy ymhob blwyddyn ariannol, heb gyfle i gario balansau cyllid ymlaen o un flwyddyn i'r llall, lle mae'r rhan fwyaf o'n prosiectau archwilio yn rhychwantu dwy flwyddyn ariannol. Yn y bôn, fe'n cyfyngir gan gyfundrefn ariannu a chyfrifyddu anhyblyg.

52 Mae'n debygol y byddai model cyllido sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r weithdrefn ffioedd, neu sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gyllid craidd o Gronfa Gyfunol Cymru a llai ar ffioedd penodol, yn llawer mwy effeithlon a chosteffeithiol i'w weinyddu. Byddai hyn hefyd yn gyson â'r gyfundrefn sy'n ofynnol gan gyrff archwilio eraill yn y DU. Fel rhan o'n hymrwymiad ein hunain o dan y rhaglen Smarter, Leaner, Better yn y cyfnod heriol hwn, byddwn yn comisiynu adolygiad o'r gyfundrefn bresennol a bwriadwn ymgynghori ar ganlyniad y gwaith hwn ar ddechrau 2017. Byddwn yn cyflwyno canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw i'r Pwyllgor Cyllid.

# Cynllun Ffioedd 2017-18

53 Wedi'i gynnwys yn y ddogfen Amcangyfrif hon mae ein Cynllun Ffioedd Drafft ar gyfer 2017-18 (Atodiad 3). Fe'i cynhwyswyd er mwyn dangos sut mae incwm ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy yn ddibynnol ar ei gilydd. Ar ôl i'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft gael eu hystyried, byddwn yn cyflwyno ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2017-18 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn hysbysu cyrff a archwilir o'u ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn.

54 Unwaith eto, roeddem o'r farn ei bod yn hanfodol i ni osgoi cynyddu ein cyfraddau ffioedd yn sgil yr heriau ariannol y mae ein cyrff a archwilir yn eu hwynebu. Felly, mae'r Amcangyfrif hwn yn pennu'r un cyfraddau ffioedd ar gyfer 2017-18 ag a bennwyd am y tro cyntaf o 1 Ebrill 2014 (Arddangosyn 8), sy'n cynrychioli gostyngiad termau real o 4 y cant.

## Arddangosyn 8 – Cyfraddau ffioedd am staff archwilio

| Gradd | Cyfradd ffioedd 2017-18 (£ yr awr) | Cyfradd ffioedd 2016-17 (£ yr awr) |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr/arweinydd ymgysylltu | 162 | 162 |
| Rheolwr archwiliad | 111 | 111 |
| Arweinydd archwiliad perfformiad | 93 | 93 |
| Arweinydd tîm archwiliad ariannol | 75 | 75 |
| Archwilydd perfformiad | 65 | 65 |
| Archwilydd ariannol | 56 | 56 |
| Hyfforddeion graddedig | 43 | 43 |

55 Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Awst 2016, gwnaethom ymgynghori â'r holl sectorau a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd a'n cyfraddau ffioedd ar gyfer 2017-18.

56 Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan yr holl sectorau a archwilir gennym, y canlynol:

- Roedd y rhan fwyaf o gyrff yn croesawu'r cynnig i rewi cyfraddau ffioedd ac i barhau i gynnig gwaith ar y Fenter Twyll Genedlaethol am ddim. Nododd nifer o'r cyrff na fyddent yn cymryd rhan yn y Fenter os byddai'n rhaid iddynt dalu.
- Roedd cyrff llai Llywodraeth Cymru yn arbennig yn poeni am effaith ffioedd ychwanegol gwaith archwilio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac roeddent yn ofni na fyddai'n cael ei ariannu gan eu hadrannau noddi.
- Cwestiynodd nifer fechan o gyrff p'un a oedd ein ffioedd yn cynrychioli gwerth am arian a gofynnwyd i ni ailystyried ein dull archwilio. Rydym yn ymateb i hyn yn yr Amcangyfrif hwn a thrwy ein prosiect Trawsnewid Strategol.

57 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth hwn ac wedi ei ystyried wrth gwblhau'r Amcangyfrif hwn a'r Cynllun Ffioedd drafft amgaeedig.

# Rhagolwg

58 Mae sefyllfa newidiol ein gwaith archwilio cyhoeddus yn creu darlun cymhleth i Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys y canlynol:

- unrhyw effaith a gaiff Brexit ar gyllid a deddfwriaeth;
- cyfyngiadau ariannol pellach o fewn y sector cyhoeddus a'r ymatebion i hynny fel modelau darparu gwasanaethau a systemau ariannu newydd;
- digideiddio prosesau darparu gwasanaethau, gwella gallu'r cyhoedd i weld data archwilio a'r defnydd ehangach o gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill;
- rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac unrhyw effeithiau ar waith yr Archwilydd Cyffredinol;
- effaith rhagor o ddatganoli a phwerau trethu i Gymru;
- y bwriad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach o 2018-19, gydag effeithiau canlyniadol ar adnoddau ar draws llywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Cymru; a'r
- cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus yn cystadlu â chyflogau archwilwyr dan hyfforddiant a chymwysedig yn y sector preifat.

59 Fel rhan o'r newidiadau uchod, rydym yn disgwyl gweld cynnydd parhaus yn yr ohebiaeth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a'r gwaith adweithiol cysylltiedig.

60 Rydym wrthi'n cynllunio ar gyfer hyn oll, o ran ein cynlluniau ariannol a'n cynlluniau ar gyfer y gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau archwilio o safon, drwy:

- pennu targed blynyddol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, £405,000 yn 2017-18, drwy ein rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Smarter, Leaner, Better – er mwyn helpu i sicrhau y caiff pob punt a wariwn yr effaith fwyaf posibl;
- adolygu ein strategaeth cynllunio'r gweithlu ac ystyried y cymysgedd o sgiliau a model y gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol - fel y gallwn ail-lunio ein gweithlu dros amser, gan baratoi ar gyfer newidiadau i'n rhaglen waith;
- defnyddio ein gwybodaeth strategol er mwyn helpu i ddatblygu polisi a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol, er enghraifft i Brexit a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru; a
- chynnal capasiti ar gyfer meddwl trawsnewidiol yn ein dulliau archwilio.

61 At hynny, bydd ein hamcangyfrifon blynyddol a'n hadroddiadau interim a blynyddol yn dangos sut rydym yn wynebu'r heriau ac yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

# Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018

62 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

63 Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gall eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; a'r
- swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

64 Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn Arddangosyn 9.

## Arddangosyn 9 – Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2017-18

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:<br>• Refeniw<br>• Cyfalaf | <br><br><br><br>6,526<br>380 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio ac ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a gafwyd i ariannu gwasanaethau archwilio; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau, fel staff ar secondiad, benthyciadau staff, taliadau prydlesu ceir a adenillir; unrhyw gostau yr aed iddynt ar gyfer trydydd parti a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith – i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gwaith gweinyddol Swyddfa Archwilio Cymru. | 15,154 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 6,706 |

65 Mae Arddangosyn 10 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018.

## Arddangosyn 10 – Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 6,906 |
| Addasiad anariannol - dibrisiant a chroniadau | (200) |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 6,706 |

# Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru

| | | Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 £'000 | Rhagolwg, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau staff | 15,411 | 15,275 |
| | Staff contractwyr | 870 | 980 |
| | Teithio a chynhaliaeth | 1,299 | 1,267 |
| | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 874 | 869 |
| | Swyddfeydd | 938 | 936 |
| | TGCh | 399 | 433 |
| | Balans TAW anadenilladwy | 390 | 390 |
| | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 |
| | Hyfforddiant allanol | 255 | 275 |
| | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 201 | 295 |
| | Cyfieithu dogfennau | 145 | 120 |
| | Costau eraill | 598 | 819 |
| | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **21,680** | **21,959** |
| Incwm | Ffioedd archwilio | 13,288 | 13,375 |
| | Ffioedd ardystio grantiau | 1,406 | 1,411 |
| | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru | 460 | 495 |
| | **CYFANSWM YR INCWM** | **15,154** | **15,281** |
| **Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru** | | **6,526** | **6,678** |

# Dadansoddiad o incwm o ffioedd amcangyfrifedig

| Sector | Archwilio cyfrifon £'000 | Archwilio perfformiad £'000 | Ardystio grantiau £'000 | **Cyfanswm 2017-18 £'000** | **Cyfanswm 2016-17 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth leol | 5,785 | 2,538 | 1,406 | **9,729** | **9,738** |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 1,790 | – | – | **1,790** | **1,850** |
| Cyrff y GIG | 1,886 | 1,224 | – | **3,110** | **3,115** |
| Incwm arall | 37 | 28 | – | **65** | **83** |
| **Cyfanswm yr incwm o ffioedd** | **9,498** | **3,790** | **1,406** | **14,694** | **14,786** |
| **Cymharydd 2016-17** | **9,553** | **3,822** | **1,411** | **14,786** | **–** |

# Atodiad 2 – Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig

| Gweithgaredd | Graddfa | Ffynhonnell y cyllid |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan lywodraeth ganolog a chyrff iechyd | Wyth set o gyfrifon a baratoir gan Lywodraeth Cymru; 25 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad; wyth corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, saith bwrdd iechyd; a thair o ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan gyrff llywodraeth leol | 22 o awdurdodau unedol, pedwar comisiynydd heddlu a throseddu a phrif gwnstabl, tri awdurdod tân ac achub, tri awdurdod parc cenedlaethol, un bwrdd draenio mewnol, wyth cronfa bensiwn a thua 750 o gynghorau tref a chymuned a chyrff bach eraill. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Asesiadau gwella llywodraeth leol | Mae'n cynnwys cynnal archwiliadau blynyddol i nodi a yw awdurdodau wedi cyflawni eu dyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau ar berfformiad; asesiadau blynyddol o'r tebygolrwydd y byddant yn cydymffurfio â dyletswyddau gwella; asesiadau corfforaethol manwl, cylchol ac arolygiadau arbennig. Fe'u cyflawnir mewn 28 o awdurdodau gwella, (y 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol). | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian grant i gefnogi gwaith asesu gwelliant. |
| Gwaith archwilio perfformiad lleol o fewn cyrff iechyd | Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe'u cyflawnir mewn saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Cydymffurfiaeth â gofynion archwilio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | Cyfanswm o 44 o gyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf | Cronfa Gyfunol Cymru yn 2017-18. Bydd cyllid y dyfodol yn debygol o fod yn gyfuniad o ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol. |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | Cyfanswm o 21 o gynlluniau llywodraeth leol (tua 400 o geisiadau sydd werth cyfanswm o oddeutu £2.5 biliwn). | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Astudiaethau gwerth am arian | Fel arfer, cynhelir tua 15 o astudiaethau ac allbynnau eraill bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn aml yn cael ei wneud o safbwynt 'system gyfan' neu o safbwynt 'trawsbynciol', lle y caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. | Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. |

| Gweithgaredd | Graddfa | Ffynhonnell y cyllid |
| --- | --- | --- |
| Cyfnewidfa Arfer Da | Gweithio gydag eraill i rannu dysgu ac arfer da. | Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. |
| Gweithgareddau pwysig eraill | Mae'n cynnwys:<br>• gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru;<br>• ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol;<br>• ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill;<br>• cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; a<br>• gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ariennir rhai gweithgareddau hefyd gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir |

# Atodiad 3 – Cynllun Ffioedd Drafft 2017-18

## Cyflwyniad

Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Mae'r Cynllun Ffioedd, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi'r sylfaen i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd.

Am y tro cyntaf, roedd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru (ar gyfer 2016-17), a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2015, yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft llawn. Mae'r drefn newydd hon yn adlewyrchu'r ffaith bod Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn benderfynol o gynyddu tryloywder ymhellach a dangos y gydberthynas uniongyrchol rhwng ein sylfaen gostau a'i heffaith ganlyniadol ar gyfraddau ffioedd.

Mae'r Bwrdd wedi gwrando'n astud ar adborth rhanddeiliaid ar ein hagenda cost-effeithlonrwydd a'r cyfraddau ffioedd a bennwn. Wrth geisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'n Hamcangyfrif ar gyfer 2017-18, gwnaethom gynnig y canlynol yn yr Amcangyfrif:

- Rhewi cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd mewn termau arian parod am y **drydedd flwyddyn**, a fyddai'n boblogaidd yn ôl yr adborth. Mewn termau real mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 4 y cant ers i'r cyfraddau hynny gael eu pennu yn 2014-15.
- Talu'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflogau staff, chwyddiant a chostau eraill drwy arbedion ac effeithlonrwydd mewnol er mwyn osgoi effeithio ar ffioedd.
- Yn unol â chytundeb blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol, parhau i ariannu gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol o'r arian a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd ar y cyrff sy'n cymryd rhan. Dangosodd yr adborth fod cyrff a archwilir yn croesawu'r drefn hon.
- Parhau i ariannu gwaith datblygu cyllid sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o arian a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd ar y cyrff yr effeithir arnynt.
- Ehangu cyfleoedd i'n hyfforddeion cyfrifyddu fynd ar secondiad yn y sector cyhoeddus, heb effeithio ar y ffioedd a godir am waith archwilio.
- Cynnal capasiti ar gyfer meddwl trawsnewidiol yn ein gwaith archwilio. Atgyfnerthodd yr adborth yr angen i ni wneud mwy o waith datblygu er mwyn helpu i gydbwyso cost gyffredinol gwaith archwilio i gyrff cyhoeddus.

Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn adlewyrchu'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ac, yn fras, mae'n nodi'r canlynol:

- Y deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd archwilio odanynt.
- Y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi'r amrediad ffioedd a godir am feysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd am waith na chaiff ei gynnwys mewn graddfeydd ffioedd.

Yn gyffredinol, caiff 70 y cant o'n gwariant ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith asesu gwelliant. Darperir y 30 y cant arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, drwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwariant a'n cyllid yn ein hamcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

### Rhestr deddfiadau

Mae Atodiad 2 yn rhestru'r deddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt.

### Cyfraddau a graddfeydd ffioedd

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir gennym fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir ein cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn.

Mae tensiwn rhwng nodi ffi am y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol ymlaen llaw i gyrff a archwilir a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau yn anochel. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein gwariant amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Os bydd y gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a gododd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, yn unol â deddfwriaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gyfundrefn ffioedd yng Nghymru yn fwy cymhleth nag mewn rhannau eraill o'r DU. Fel yr amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Pwyllgor Cyllid yn y Cynulliad diwethaf, mae hyn yn creu aneffeithlonrwydd a chost ychwanegol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn awyddus i ddatblygu cynigion ar gyfer trefniant symlach a mwy cost-effeithiol a all gael ei ystyried gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad presennol. Bwriadwn ymgynghori â gwasanaethau cyhoeddus ar opsiynau posibl ar ddechrau 2017.

Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Medi 2016, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd a'n cyfraddau ffioedd ar gyfer 2017-18. Dangosodd yr ymatebion y canlynol:

- Mae'r cam i barhau i rewi cyfraddau ffioedd yn cael ei groesawu'n fawr, yn ogystal ag ariannu cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Ceir rhywfaint o bryder, yn enwedig ymhlith Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, na chaiff y taliadau posibl am waith archwilio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 eu gwneud o gyllid Llywodraeth Cymru.
- Mae peth galw am ddull archwilio symlach er mwyn helpu i leihau cyfanswm y ffioedd a godir am waith archwilio. Defnyddir yr arian a nodwyd ar gyfer meddwl trawsnewidiol yn 2016-17 i adolygu ein dull gweithredu. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2017-18.

Croesawodd y Bwrdd yr adborth hwn ac mae'n ymateb iddo drwy'r Cynllun Ffioedd hwn a'n Hamcangyfrif.

Mae Arddangosyn 1 yn nodi'r cyfraddau ffioedd fesul awr am staff archwilio. Mae'r rhain wedi'u rhewi ers 2014-15, gan gynrychioli gostyngiad o 4 y cant mewn termau real.

### Arddangosyn 1 - Cyfraddau ffioedd am staff archwilio - ar gyfer yr holl waith archwilio

| Gradd | Cyfradd ffioedd (£ yr awr) |
|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 162 |
| Rheolwr archwiliad | 111 |
| Arweinydd archwiliad perfformiad | 93 |
| Arweinydd tîm archwiliad ariannol | 75 |
| Archwilydd perfformiad | 65 |
| Archwilydd ariannol | 56 |
| Hyfforddai graddedig | 43 |

Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y canlynol:

- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

Mae'r graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon ariannol 2016-17 ac archwiliadau ac asesiadau gwella 2017-18 ar gael yn Atodiad 3 ar gyfer gwaith a wneir mewn perthynas ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Ceir graddfa ffioedd wahanol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae'r graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio costau archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn rhoi fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw o fewn y corff penodol a archwilir.

Yn achos cyrff a archwilir nad yw'r gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn berthnasol iddynt, caiff eu ffioedd archwilio amcangyfrifedig eu cyfrifo yn yr un ffordd - hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn at y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig yn y tîm a'r oriau sydd eu hangen i gynnal yr archwiliad.

Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd ac adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

Mae'r cyfraddau ffioedd yn gymwys i'r holl waith archwilio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano, ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, lle bo hynny'n gymwys, yn rheoleiddio'r swm a godir (neu yn achos gwaith a wneir dan gytundebau cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau yn unol â'r rhai y cytunwyd arnynt yn y telerau). Os ymddengys yn ddiweddarach i Swyddfa Archwilio Cymru bod y gwaith sydd ynghlwm wrth archwiliad penodol yn sylweddol wahanol i'r gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol, caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi sy'n wahanol i'r ffi a nodwyd yn wreiddiol.

O ran unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, caiff ffioedd eu codi yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod y caiff y cyfryw symiau eu capio yn unol â chost lawn darparu'r gwasanaeth. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd ffioedd am y mathau hyn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith a fydd yn ofynnol.

Os bydd angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, codir tâl ar y cyrff a archwilir yn ychwanegol at gost staff Swyddfa Archwilio Cymru.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny a pharatoi adroddiad blynyddol ar eu cynnydd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau o'r graddau y mae'r cyrff cyhoeddus hynny yn pennu amcanion ac yn cymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yn ystod 2016-17, rydym yn gweithio gyda chyrff a archwilir a enwir yn y Ddeddf a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru wrth i ni ddatblygu a phrofi'r dulliau archwilio i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf. Yn ddiweddar cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol ymgynghoriad ar oblygiadau'r Ddeddf ar ein dull archwilio. Ystyrir yr ymatebion cadarnhaol ac adeiladol i'r ymgynghoriad hwnnw wrth i ni ddatblygu a phrofi ein dull archwilio, gan weithio'n agos â sampl gynrychioliadol o gyrff a archwilir a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Disgwyliwn i'r gwaith datblygu hwn barhau yn 2017-18 ac rydym wedi ceisio cyllid parhaus, er ei fod yn swm llai, gan Gronfa Gyfunol Cymru at y diben hwnnw.

Wrth i ni gadarnhau ein dull archwilio yn ystod y flwyddyn, byddwn yn siarad â chyrff a archwilir perthnasol ynghylch goblygiadau cyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf am ffioedd o 2017-18 ymlaen. Ar gyfer 2017-18, nid ydym yn bwriadu codi unrhyw gostau ychwanegol am y gwaith hwn, yn amodol ar y Cynulliad yn cymeradwyo ein Hamcangyfrif. Ein dyhead, a gefnogir gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yw integreiddio gofynion y Ddeddf yn ein gwaith archwilio presennol, lle bo modd, wrth i ni symud tuag at fframwaith cyson ar gyfer adolygu'r holl gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

### Codi ffioedd

Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn egluro cymysgedd sgiliau'r corff hwnnw ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi ffioedd â chyrff a archwilir a gallai'r rhain gynnwys ffioedd un-tro, achlysurol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

Disgwylir i gyrff a archwilir dalu anfonebau Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'u targed perfformiad ar gyfer talu credydwyr, sef 10 diwrnod fel arfer yn y sector cyhoeddus. Gallwn godi ffi am unrhyw gostau gweinyddol yr awn iddynt wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol yr aed iddynt wrth gyflawni'r aseiniad o gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd yn fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi costau ychwanegol pan fo'r ffi yn rhy fach. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol gan geisio lleihau costau gweinyddol i'r eithaf, drwy eu gwrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio, er enghraifft.

# Atodiad 1 - Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 - testun llawn adran 24

(1) Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

(a) rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi odanynt;

(b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;

(c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw; a

(d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill—

(a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a'r

(b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

(a) rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,

(b) caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac

(c) rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# Atodiad 2 – Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi oddi tanynt

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol | |
| Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ar wahân i gyfrifon llywodraeth leol) | Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb | Adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 o ran Datganiad Treth Awdurdod Refeniw Cymru | Adran 23(3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy) | Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol | Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Ymarferion paru data | Adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| Cyngor a chymorth a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan yr Archwilydd Cyffredinol | Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol | |
| Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol |
| Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth o weinyddu budd-daliadau dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru am yr astudiaeth. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno. | Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i arolygu awdurdodau lleol. Ni wnaiff Archwilydd Cyffredinol Cymru ddarparu cymorth o'r fath oni fydd y Prif Arolygydd, cyn iddo wneud hynny, wedi cytuno i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru. | Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 |
| Rhaglenni astudio yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gynhelir drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn un o amodau unrhyw raglen o'r fath bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i Swyddfa Archwilio Cymru am y costau yr eir iddynt. | Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

# Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir mewn cyrff llywodraeth leol

## Awdurdodau unedol


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2016-17

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 100 | 118 | 139 | 160 | 140 |
| 200 | 142 | 167 | 192 | 168 |
| 300 | 158 | 186 | 214 | 187 |
| 400 | 171 | 201 | 231 | 202 |
| 500 | 181 | 213 | 245 | 215 |
| 600 | 190 | 224 | 257 | 225 |
| 700 | 198 | 233 | 268 | 235 |
| 800 | 205 | 242 | 278 | 243 |
| 900 | 212 | 249 | 287 | 251 |
| 1,000 | 218 | 256 | 295 | 258 |
| 1,100 | 224 | 263 | 303 | 265 |
| 1,200 | 229 | 269 | 310 | 271 |

### Graddfa ffioedd 2017-18 ar gyfer archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

| Pob awdurdod unedol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 94 | 112 | 130 | 112 |

## Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



## Awdurdodau tân ac achub


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2016-17

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 20 | 35 | 41 | 47 | 41 |
| 40 | 42 | 49 | 56 | 49 |
| 60 | 46 | 55 | 63 | 55 |
| 80 | 50 | 59 | 68 | 59 |
| 100 | 53 | 63 | 72 | 63 |

### Graddfa ffioedd 2016-17 ar gyfer archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

| Pob awdurdod tân ac achub | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 13 | 16 | 18 | 14 |

## Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



# Awdurdodau parciau cenedlaethol


## Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2016-17

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 2 | 21 | 25 | 29 | 25 |
| 4 | 26 | 30 | 35 | 31 |
| 6 | 29 | 34 | 39 | 34 |
| 8 | 31 | 37 | 42 | 37 |
| 10 | 33 | 39 | 45 | 39 |

## Graddfa ffioedd 2016-17 ar gyfer archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 12 | 14 | 17 | 7 |

## Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol




## Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o'r ddau gorff statudol a geir mewn ardal heddlu, sef y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabliaid (PG). Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2016-17

| Gwariant gros cyfunol CHTh a PG £000,000 | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer CHTh a PG £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 50 | 60 | 70 | 79 | 70 |
| 100 | 71 | 82 | 93 | 82 |
| 150 | 78 | 91 | 103 | 91 |
| 200 | 84 | 97 | 111 | 98 |
| 250 | 88 | 103 | 117 | 103 |
| 300 | 92 | 107 | 122 | 108 |
| 350 | 96 | 112 | 127 | 112 |

## Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid



## Cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o lai na £2.5 miliwn

Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r drefn archwilio 'sicrwydd cyfyngedig'. Ar gyfer 2016-17, byddwn yn codi ffioedd am waith ar sail amser yn hytrach nag ar y sail hanesyddol o godi ffi benodedig yn unol â'r band gwariant/incwm. Cyfraddau'r ffioedd fydd y cyfraddau a bennir yn Arddangosyn 1. Dangosir amcangyfrif o effaith y newid hwn yn y tabl isod.

Mewn amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau yn briodol, megis ar ôl cyhoeddi adroddiad perthnasol er lles y cyhoedd, bydd profion ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn ymateb i bryderon yr archwilydd.

Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser a dreulir mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae'r amrediadau yn y tabl isod wedi eu darparu at ddibenion dangosol yn unig.

### Amcangyfrif o'r ffioedd amser am archwilio cyfrifon 2016-17 cynghorau tref a chymuned

| Incwm neu wariant blynyddol (mae'r ffioedd yn daladwy ar sail pa un bynnag yw'r mwyaf ym mhob blwyddyn) | Ffi waelodlin ddangosol | Ffi uchafswm ddangosol |
|---|---:|---:|
| £Dim – £99 | £Dim | £Dim |
| £100 – £5,000 | £30 | £280 |
| £5,001 – £100,000 | £160 | £320 |
| £100,001 – £500,000 | £200 | £380 |
| £500,001 – £2,500,000 | £240 | £460 |

## Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2016-17

| Pob cronfa bensiwn | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 30 | 40 | 50 | 40 |

## Cyfraddau ffioedd am waith arall mewn llywodraeth leol

### Archwilio mathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol, a gwaith ardystio grantiau

Heblaw am y mathau hynny o gyrff lle rhagnodwyd eu graddfeydd ffioedd fel y nodir uchod, mae nifer fechan o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae rhagnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd, naill ai'n uniongyrchol ar sail y gost o gyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a bennir yn Arddangosyn 1. Byddwn yn dal i gynllunio archwiliadau ar sail sero wrth archwilio'r cyrff hyn.

Er mwyn i bob math o gorff llywodraeth leol gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae angen weithiau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w ddyletswyddau cyffredinol (sef y rhai a bennir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). Gall y gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er lles y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â her etholwr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd ffioedd am y mathau hyn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith a fydd yn ofynnol.

Gall archwilwyr ymgymryd hefyd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae maint y gwaith ardystio grantiau a ymgymerir yn ystod unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio a nifer y cyrff a archwilir a fydd yn cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn ar y sail fesul awr, a bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint a chymhlethdod y gwaith ac unrhyw faterion penodol ynglŷn â'r grant dan sylw.

Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru yn y gobaith y gallwn lunio model a fydd yn canolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau gweithgarwch a ariennir gan grantiau, gan ymbellhau oddi wrth y dull traddodiadol o archwilio anfonebau. Dylai hyn roi dealltwriaeth gliriach i Lywodraeth Cymru a chyrff a archwilir o'r gwahaniaeth y mae gweithgarwch a ariennir gan grantiau yn ei wneud, yn ogystal â lleihau cost gwaith ardystio grantiau. Rydym yn treialu'r dull hwn yn ystod 2016-17, a byddwn yn trafod y goblygiadau i ffioedd gyda'r awdurdodau peilot.

Dangosir isod amcangyfrifon o gyfrannau cymharol y graddau staff archwilio ariannol a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.

| Graddau staff | Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr archwiliad | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd tîm | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Aelod o'r tîm/hyfforddai | 77 i 71 | 87 i 81 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymladd twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal yr MTG yng Nghymru ar sail eilflwydd Caiff y Fenter ei chynnal yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i unrhyw hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Bu'n arf effeithiol iawn ar gyfer darganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi gychwyn yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau gwerth £30 miliwn yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ledled y DU.

Cynhelir y Fenter gan yr Archwilydd Cyffredinol drwy arfer ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ers mis Ebrill 2016, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi talu am redeg y Fenter drwy ddefnyddio Cronfa Gyfunol Cymru fel y'i cymeradwywyd drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru, a thrwy hynny sicrhau na chodir ffi ar gyfranogwyr gwirfoddol. Ond fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol isod.

### Arddangosyn 2 – Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

| Math o gorff | Ffi 2017-18 £ |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr heddlu a throsed-du a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol. | Dim |
| Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter ('App Check'). | Dim |

Bydd cyfranogwyr gorfodol yn cael mynediad yn ddi-dâl hefyd i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru